CARFANAU IAITH – POLISI IAITH GWYNEDD A MÔN

| CARFAN | DISGRIFIAD | DARPARIAETH |
|---|---|---|
| A | **Disgyblion â hyfedredd oed-berthnasol cyfochrog yn y Gymraeg a'r Saesneg.**<br>Yn bur rhugl yn y ddwy iaith o safbwynt gallu troi o'r naill iaith i'r llall yn ôl y gofyn, a'u mynegi eu hunain ar lafar ac yn ysgrifenedig yn unrhyw un o'r ddwy. Mae'r ddwy iaith fel ei gilydd yn foddion cyfathrebu parod ganddynt. | Disgwylir i'r disgyblion hyn dderbyn addysg ddwyieithog ar draws y cwricwlwm er mwyn meithrin, atgyfnerthu ac ymestyn eu hyfedredd cyfochrog yn y ddwy iaith. |
| B | **Disgyblion â hyfedredd priodol yn y Gymraeg ond angen atgyfnerthu rhai agweddau ar eu sgiliau ieithyddol yn y Saesneg.**<br>Y Gymraeg yn famiaith iddynt a'r iaith amlaf ei defnydd fel cyfrwng sgwrsio, darllen ac ysgrifennu.<br>Y Saesneg yn llai 'datblygiedig' ganddynt ac maen nhw'n llai hyderus wrth ei defnyddio. | Dylai'r ysgol ddarparu addysg ddwyieithog a'r pwyslais ar ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn galluogi'r disgyblion hyn i drosglwyddo i Garfan A maes o law. |
| C1 | **Disgyblion â hyfedredd priodol yn y Saesneg ond angen atgyfnerthu rhai agweddau ar eu sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg.**<br>Rhai disgyblion â'r Saesneg yn famiaith iddynt neu'n iaith bennaf y cartref, ac yn troi ati'n fympwyol mewn sefyllfaoedd cyfathrebu ffurfiol ac anffurfiol.<br>Yn gallu'r Gymraeg ond eu defnydd ohoni yn fwy cyfyngedig.<br>Eraill yn barod i gyfathrebu yn y Gymraeg ar lafar ac yn ymwybodol o'r patrymau iaith sylfaenol i gynnal sgwrs a thrafod materion o ddydd i ddydd, ond yn gloff ac ansicr wrth ddarllen yr iaith ac yn ddihyder wrth ysgrifennu. | Wrth gynllunio ar gyfer disgyblion y garfan hon, dylid rhoi pwyslais ar ymestyn eu hyfedredd yn y Gymraeg yn y tri TC. Dylid cynnig amrywiaeth o bynciau'n ddwyieithog, gan fabwysiadu'r dulliau a awgrymir yn yr adran ar Fethodoleg (yn y Polisi Iaith). Bydd cyfleoedd iddynt hefyd ymestyn eu sgiliau yn y Gymraeg drwy sicrhau mai'r iaith honno sydd yn cael blaenoriaeth mewn sefyllfaoedd eraill megis y cyfnod cofrestru, gwersi ABCh, y gwasanaeth boreol, cyngherddau, ayyb. |
| C2 | **Disgyblion â hyfedredd priodol yn y Saesneg ond heb y sgiliau oed-berthnasol yn y Gymraeg.**<br>Yn bur gyfyngedig eu defnydd o'r Gymraeg, iaith oddefol yn unig ydyw; nid oes ganddynt yr hyder na'r feistrolaeth i ddechrau sgwrs eu hunain; eu patrymau a'u geirfa yn gyfyngedig iawn. | Gellir cynnig amrywiaeth o bynciau lle ceir pwyslais ar waith llafar a gwaith ymarferol trwy gyfrwng y Gymraeg i'r disgyblion hyn, yn ogystal â'r sefyllfaoedd eraill a awgrymwyd uchod ar gyfer Carfan C1. |
| CH | **Disgyblion â hyfedredd oed-berthnasol isel yn y ddwy iaith.**<br>Yn gyfyngedig eu defnydd o'r ddwy iaith yn enwedig wrth ddarllen ac ysgrifennu. Heb y sgiliau sylfaenol angenrheidiol. | Rhaid wrth gynllunio gofalus a phwrpasol er mwyn sicrhau bod y disgyblion hyn yn datblygu'r sgiliau angenrheidiol yn y ddwy iaith. Bydd cynlluniau addysg unigol yn fodd i roi ystyriaeth i ddatblygiad ieithyddol disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn y garfan hon. |